Carcharorion – galwadau ffôn

Os ydych yn y carchar, mae'n bwysig iawn eich bod yn cadw mewn cysylltiad â'ch teulu a'ch ffrindiau. Mae'r daflen ffeithiau hon yn trafod cadw mewn cysylltiad drwy ffôn. Ni all ffrindiau na theulu ffonio'r carchar i siarad â charcharor. Mae yna reolau ynglŷn â'r mathau o alwadau ffôn y mae carcharor yn gallu eu gwneud.

Pwy allwch ei ffonio pan ydych yn y carchar

Os ydych yn y carchar, gallwch wneud galwadau ffôn gan ddefnyddio'r system ffôn PIN. Bydd gennych rif adnabod personol (PIN) i'w ddefnyddio pan ydych yn ffonio. Mewn rhai carchardai, gallwch ffonio dim ond rhai rhifau penodol yr ydych eisoes wedi'u rhoi i'r carchar ac sydd wedi cael eu cymeradwyo. Mewn carchardai eraill, gallwch ffonio unrhyw rif heblaw am y rhifau sydd wedi'u gwahardd gan y carchar. Mewn pob carchar, nid oes hawl gennych i ffonio rhifau premiwm a allai gynnwys llinellau sgwrsio neu linellau i oedolion yn unig. Mae'n bosib y gellir cyfyngu ar hyd eich galwadau ffôn.

Mae galwadau ffôn a wneir gan garcharor yn cael eu recordio a gellir eu monitro unrhyw bryd. Nid yw hyn yn berthnasol i garchardai agored na galwadau i'r bobl ganlynol:-

- eich ymgynghorwyr cyfreithiol
- y Bwrdd Monitro Annibynnol
- y Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol
- Swyddfa Ombwdsmon y Gwasanaeth Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf
- y Samariaid.

Gelwir y mathau hyn o alwadau yn **alwadau cyfrinachol**.

Os ydych yn garcharor Categori A, caiff eich galwadau eu rheoli'n fwy llym.

Mae yna reolau ynglŷn â'r hyn allwch ei ddweud mewn galwad ffôn. Er enghraifft, ni allwch siarad am unrhyw beth a ystyrir yn fygythiad i ddiogelwch y carchar neu'n hiliol. Os ydych yn torri'r rheolau, mae'n bosib bydd eich galwad yn cael ei stopio.

Mae'n bosib y gallwch ddefnyddio ffôn swyddogol y carchar ar gyfer galwadau brys ar sail tosturi. Mae'n rhaid i chi dalu am y galwadau hyn heblaw bod y rheolwr yn gwybod nad ydych yn medru eu fforddio. Mae rhai carchardai yn eich caniatáu i wneud galwad ffôn byr adref yn rhad ac am ddim pan ydych yn cyrraedd y carchar o'r llys. Mae rhai carchardai eraill yn eich caniatáu i wneud un galwad ffôn byr a chymryd y gost allan o'ch cyfrif galwad PIN nes ymlaen.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Cysylltu ag ymgynghorwyr cyfreithiol

Mae gennych yr hawl i wneud galwadau ffôn cyfrinachol i'ch ymgynghorydd cyfreithiol megis cyfreithiwr, bargyfreithiwr neu unrhyw un sy'n gweithio'n uniongyrchol iddynt. Nid oes hawl gennych i wneud galwadau ffôn cyfrinachol i'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Mewn rhai amgylchiadau eithriadol, mae'n bosib y bydd hawl gennych i ddefnyddio ffôn swyddogol y carchar ar gyfer galwadau cyfreithiol brys.

Carcharorion cenedlaethol estron

Mae hawl gan garcharorion cenedlaethol estron wneud un alwad pum munud i wlad dramor pob mis, yn lle ymweliadau.

Cwyno am alwadau ffôn

Os ydych yn garcharor sydd am gwyno am broblemau gyda galwadau ffôn, defnyddiwch y weithdrefn gwyno arferol. Mae yn erbyn y gyfraith i'ch trin yn annheg, er enghraifft, oherwydd eich anabledd, eich hil neu'ch tarddiad ethnig. Gwahaniaethu yw hyn. Os yw gwahaniaethu yn rhan o'r broblem, sicrhewch eich bod yn son amdano pan ydych yn cwyno.

Cymorth ychwanegol

Y Gwasanaeth Cynghori Carcharorion (PAS)
Blwch post 46199
Llundain
EC1M 4XA

Rhif ffôn: 020 7253 3323 / 0845 430 8923 (dydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener 9:30am – 1:00pm a 2:00pm – 5.30pm)
Ffacs: 020 7253 8067
E-bost: advice@prisonersadvice.org.uk
Gwefan: www.prisonersadvice.org.uk

Mae'r Gwasanaeth Cynghori Carcharorion (PAS) yn darparu cyngor a gwybodaeth i garcharorion ynglŷn â'u hawliau fel carcharorion. Nid yw PAS yn delio â chamwedd neu apeliadau yn derbyn euogfarn neu ddedfryd.

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys unrhyw fath o broblem.

Mae rhai Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhedeg sesiynau cynghori yn y carchar. Os ydych yn y carchar, dylech wirio i weld os ydynt yn rhedeg y sesiynau hyn yn eich carchar chi. Os nad ydynt yn cynnal y sesiynau hyn, ysgrifennwch at eich CAB lleol ac esboniwch eich problem. Gofynnwch i aelod o staff y carchar am gyfeiriad eich CAB lleol.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Os nad ydych yn y carchar a hoffech ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Carcharorion – llythyron
- Carcharorion – ymweliadau
- Carcharorion – cwyno
- Carcharorion – cael cymorth ychwanegol
- Gwahaniaethu yn y carchar

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 18 Hydref 2010, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - www.adviceguide.org.uk - lle gallwch lawrlwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr